

Atodiad 3

Nodiadau o Bwyllgor Craffu Cyngor Rhondda Cynon Taf

19 Rhagfyr 2018, 5pm

Nifer y Cynghorwyr a oedd yn bresennol - 12

Swyddogion RhCT a oedd yn bresennol - Gaynor Davies, Andrea Richards, Lisa Howell, Sophie Nicholls, Christian Hanagan, Paul Nicholls, Claire Hendy

Eglurodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol beth oedd diben yr adroddiad i'r Aelodau. Dywedodd e wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn gyfle i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc fod yn rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â Rhaglenni Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - Cynnig i Wella Addysg yn Ardal Ehangach Pontypridd a Chynigion i Wella Addysg yng Nghwm Cynon.

Ar nifer o achlysuron, mae aelodau'r Pwyllgor wedi ceisio'r cyfle i wneud cyfraniadau a sylwadau mewn perthynas â chynigion y rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor yn rhan o Raglen Band B.

Eglurodd e fod y Cabinet wedi cytuno i roi proses ymgynghori ffurfiol ar waith ynglyn â'r cynigion i wella addysg yng Nghwm Cynon a gwella addysg yn Ardal ehangach Pontypridd ar 20 Medi a 3 Hydref.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol beth fyddai trefn y cyfarfodydd er mwyn bod yn gyson â'r cyfarfodydd cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor. Eglurodd e y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno fel dwy eitem ar wahân, gan ddechrau gyda'r Ymgynghoriad ynglŷn â Chwm Cynon a symud ymlaen i'r Ymgynghoriad ar gyfer Ardal Ehangach Pontypridd. Eglurodd e y byddai barn y Pwyllgor Craffu, yn ogystal â barn yr ysgol a rhanddeiliaid ehangach, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol, a hynny cyn i'r Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cam nesaf o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ai peidio.

Estynnodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wahoddiad i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yn ogystal â swyddogion, i gynnal yr ymgynghoriad.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac eglurodd y byddai angen clywed barn y Pwyllgor mewn perthynas â'r Cynigion Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer Hirwaun/Penderyn.

Cafodd yr Aelodau wybod mai'r rheswm dros y cynnig yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y cynigion i wneud y canlynol:

- Gwella addysg a chynyddu'r ddarpariaeth addysg yn Hirwaun drwy fuddsoddi mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun.
- Gwella'r ddarpariaeth o ran addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y lleoedd yng Nghwm Cynon Uchaf, a hynny drwy wneud Ysgol Gymuned Penderyn (sy'n ysgol ddwy iaith ar hyn o bryd) yn ysgol gynradd Gymraeg.

Caiff y newidiadau yma eu rhoi ar waith drwy adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Byddai lle i 390 o ddisgyblion yn yr ysgol newydd (yn ogystal â disgyblion meithrin). Byddai'r ysgol newydd yn disodli'r adeiladau sydd ar y safle ar hyn o bryd.

Byddai Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn dod yn ysgol gynradd Gymraeg, gyda lle i 231 o ddisgyblion (yn ogystal â disgyblion meithrin). Yn rhan o'r cynnig i newid cyfrwng Ysgol Gymuned Penderyn i Gymraeg yn unig, eglurwyd y byddai cynnig hefyd i newid dalgylchoedd a'u hystyngiadau er mwyn cwrddu cymunedau Trenant a Phen-y-waun (sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Mae'r addasiadau yma yn cael eu gwneud er mwyn cyd-fynd â'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y ddogfen ymgynghori i'r Aelodau yn fanwl. Ar ddiwedd y cyflwyniad, eglurwyd bod y cyfarfod bellach yn agored i unrhyw un a oedd yn awyddus i rannu eu barn â'r swyddogion. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei gofnodi ac, am mai ymgynghoriad yw hwn, efallai na fyddai modd rhoi ymateb i bob cwestiwn ar hyn o bryd. Serch hynny, caiff pob cwestiwn ei gofnodi a'i gynnwys yn ffurfiol yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am y trosolwg o'r cynnig ac eglurodd hi i'r aelodau nad oes modd gwneud unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod. Serch hynny, mae'n gyfle pwysig i roi sylwadau ynglŷn â'r cynigion a rhoi cyfle i'r Aelodau rannu'u barn â'r Cabinet pan fydd yr adborth ehangach ar yr ymgynghoriad yn dod i law.

Rhannodd yr Aelodau eu cwestiynau a'u sylwadau ynglŷn â gwella'r ddarpariaeth addysg yn Hirwaun drwy fuddsoddi £10.4 miliwn mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun.

Eglurodd un Aelod ei bod hi wedi bod yn ysgrifennydd mewn cyfarfod a gafodd ei gynnal gan y Cynghorydd Graham Thomas ddydd Gwener diwethaf ym Mhenderyn. Doedd hwn ddim yn gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor.

O ran ardal Hirwaun a Phenderyn, a chysyniad addysg Gymraeg, yn ogystal â chynllun Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw weithgarwch wedi'i gynnal yn y gymuned cyn yr ymgynghoriad er mwyn ystyried barn trigolion yr ardal.

Eglurwyd bod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn cynnwys cynllun y Cyngor i gynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol mae'r cynllun yma'n cynnwys y canlynol:

- Darparu adeiladau ysgol newydd a gwell, sydd â chapasiti priodol.
- Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gyfarwyddol iawn. Mae'r Cod yn nodi'n glir nad yw hi'n ofynnol i'r Cyngor gynnal unrhyw gyfarfodydd i drafod cynigion, ond rydyn ni'n gwneud hyn am ein bod ni'n ei ystyried yn fater o ymarfer da. Serch hynny, er mwyn rhoi dull gweithredu cyson ar waith, dydyn ni ddim yn cynnal cyfarfodydd cyn ymgynghori.

Holodd un o'r Aelodau am y ffigur cynnal a chadw, sef £1.9 miliwn, a gofynnodd sut y gwnaethon ni, fel Awdurdod Lleol, gyrraedd y sefyllfa yma. Cafodd yr Aelodau wybod fod yr ysgol yn adeilad o fath CLASP, ac y cafodd hi ei hadeiladu ar ddiwedd y 1960au. Mae'r adeiladau yn rhai anodd eu cynnal a'u cadw gan fod angen rheoli asbestos, a dydyn nhw ddim yn ddefnyddiol mwyach.

Gofynnodd un Aelod a oes angen i'r Cyngor dalu am ddymchwel yr adeilad? Eglurwyd bod yr holl gostau, gan gynnwys y costau am ddymchwel yr adeilad a chael gwared ar yr asbestos, yn rhan o gostau cyffredinol y prosiect.

Canmolodd Aelod arall y cynnig, gan ddweud fod ei fod wedi'i gynllunio'n dda.

Gofynnodd un Aelod faint o bwysau ychwanegol a fyddai darparu rhagor o gludiant ysgol yn ei roi ar y gwasanaeth cludiant ysgol. Eglurwyd nad yw hyn yn glir ar hyn o bryd, bydd y rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion cyfrwng Saesneg yn newid. Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch, hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn ac sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg, gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan nad yw'r llwybr cerdded yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'.

Mewn perthynas â chludiant, mynegodd un Aelod bryderon ynglŷn â ph'un a oes digon o gludiant cyhoeddus i/o Bendor yn ai peidio. Nododd un Aelod fod y gwasanaeth bws o Bendor yn rhedeg bob awr, ac y gallai hyn beri problem ddifrifol i rieni, yn enwedig os nad ydyn nhw'n gallu gyrru. Gallai hyn beri pryder os bydd angen i rieni gyrraedd yr ysgol mewn argyfwng.

Roedd y rhan fwyaf o rieni yn teimlo'n gryf bod angen edrych ar y sefyllfa mewn perthynas â chludiant yn fwy manwl. Eglurodd y Swyddogion fod yr Adran Addysg yn gweithio gyda charfan gludiant y Gwasanaeth Prifffyrdd, a bydd staff yr adran yn trafod y mater gyda'r cwmni cludiant preifat.

Gofynnodd y Cadeirydd sut mae modd cyflwyno'r cynnig ar gyfer Ysgol Gymraeg Penderyn fel un cadarnhaol ar gyfer cymunedau Hirwaun a Phenderyn? Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod gan rai rhieni deimladau cryf ynglŷn â chael gwared ar y ffrwd Saesneg. Serch hynny, mae rhieni eisoes yn ffafrio addysg cyfrwng Cymraeg, gan mae dim ond tri disgybl sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg eleni. Serch hynny, mae adborth cadarnhaol wedi dod i law ac mae'r buddsoddiad sylweddol yma yn y gymuned yn cael ei ystyried yn gyfle gwirioneddol ar gyfer ysgolion yn ardal ehangach Cwm Cynon. Mae angen i ni ganolbwyntio ar gydraddoldeb a sicrhau bod modd i bob disgybl fanteisio ar gyfleusterau a chyfleoedd da o ran addysg.

Gofynnodd y Cadeirydd p'un a fyddai modd i'r ysgol ddarparu ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal, ac a oedd hyn wedi'i ystyried wrth lunio'r cynnig. Eglurwyd bod y Cyngor yn rheoli nifer y lleoedd yn ei ysgolion mewn modd strategol, yn cyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol ac yn monitro'r sefyllfa o ran datblygiadau tai newydd ac arfaethedig yn yr ardal. Eglurodd Aelod arall fod cynnig i ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd. Mae hwnnw'n ddatblygiad posibl ac rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn dod â rhagor o swyddi i'r ardal. Byddai Ysgol yr 21^{ain} Ganrif yn gam cadarnhaol iawn ar gyfer yr ardal.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ac, am na chafodd unrhyw gwestiynau eu rhoi ymlaen ynglŷn â chynnig Cwm Cynon, gofynnodd i'r Swyddogion fwrw ymlaen â'r ddogfen ymgynghori nesaf er mwyn ystyried y cynnig ar gyfer Ardal Ehangach Pontypridd.